**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

15 Mawrth 2018

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn trafod y materion oedd yn deillio o'r cyllid cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru, fel yr amlygwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2017. Drwy gydol yr ymchwiliad, rydym hefyd wedi cael tystiolaeth am y broses gwneud penderfyniadau ynghylch penderfyniad y Cabinet i beidio â rhoi'r cymorth y gofynnodd Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd amdano.

Fel rhan o'r ystyriaeth hon, mae gan y Pwyllgor nifer o ymholiadau ar y cyngor diwydrwydd dyladwy a ddarparwyd gennych ym mhapur y Cabinet, ac felly rwy'n ysgrifennu i ofyn am gopi o'r papur o 27 Mehefin 2017. Nid yw'r Pwyllgor yn pryderu am effeithlonrwydd y penderfyniad ei hun ond, yn hytrach, yn ceisio sicrwydd bod y wybodaeth a ddarparwyd i chi yn cynnwys y cafeatau angenrheidiol o ran y cyngor a gafodd swyddogion.

Yn naturiol, byddem yn trin y papur hwn fel data cyfrinachol a sensitif a'r unig reswm y byddem yn ei ddefnyddio yw er mwyn sicrhau'r Pwyllgor fod proses lawn a chywir wedi'i chynnal.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565